

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	5 Rhagfyr 2018
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd <a href="mailto:licensing@denbighshire.gov.uk">licensing@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706066
<b>TESTUN:</b>	Y wybodaeth ddiweddaraf am Weithdrefn a Pholisi Pwyntiau Cosb

## **1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1 Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar Weithdrefn a Pholisi Pwyntiau Cosb.

## **2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 2.1 Mae Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn ddogfen unigol sy'n cwmpasu sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â mân achosion o ran trwyddedu tacsis ac fe'i cymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Medi 2014 ac fe'i diweddarwyd ym mis Medi 2015.
- 2.2 Mae cyflwyno pwyntiau wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2015.

## **3. GWYBODAETH GEFNDIR**

- 3.1 Cyfrifoldeb allweddol y cyngor dan y ddeddfwriaeth drwyddedu yw sicrhau mai dim ond pobl addas a phriodol sy'n cael trwyddedau ac yn parhau i fod yn yrwyr neu weithredwyr cerbydau hacni / hurio preifat. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch y rhai sy'n defnyddio cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a'r cyhoedd.
- 3.2 Mae Gweithdrefn a Pholisi Pwyntiau Cosb wedi'i fabwysiadu fel proses i nodi'r gyrwyr, gweithredwyr neu berchnogion cerbydau sy'n gyson yn ymddwyn mewn dull, os yr ystyrir yn ei gyfanrwydd, sy'n nodi nad ydynt yn unigolion cymwys ac addas i gael trwydded. Mae'n fodd i'r swyddogion nodi a chofnodi tor-amodau difrifol a lefel isel o natur annerbyniol. Mae'r Cynllun yn gweithredu fel cofnod o ymddygiad unigolyn trwyddedig, a bydd yn rhoi canllaw i'r Cyngor i nodi a yw unigolyn yn "addas a phriodol" i feddu ar drwydded berthnasol.

- 3.3 Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ym mis Medi 2015. Yn dilyn yr adolygiad gweithredwyd rhai diwygiadau i'r polisi a'r weithdrefn ac mae'r fersiwn bresennol ynghlwm yn Atodiad A.
- 3.4 Dylid adolygu'r ddogfen bob tair blynedd o leiaf.
- 3.5 Mae'r Swyddogion wedi adolygu'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb ac maent o'r farn eu bod yn parhau i fod yn addas i bwrpas ac felly nid ydynt yn cynnig unrhyw newidiadau i'r cynllun.
- 3.6 Mae'r tablau canlynol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar nifer y digwyddiadau a'r math o dor-amodau lle y cyflwynwyd pwyntiau eleni a'r llynedd.

2017		
Nifer y digwyddiadau	Mater	Nifer y pwyntiau fesul mater
1	Ysmygu mewn man di-fwg – mewn cerbyd trwyddedig	10 pwynt
1	Gyrru cerbyd trwyddedig mewn modd sy'n debygol o achosi perygl i aelod o'r cyhoedd	10 pwynt
1	Gyrru cerbyd trwyddedig gyda theiar diffygiol yn is na'r isafswm o 1.6mm – sef 0.9mm yn yr achos hwn	10 pwynt
2	Gyrru cerbyd trwyddedig sydd yn fudr y tu mewn	6 phwynt
1	Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais am drwydded	10 pwynt
	Gyrrwr yn gwrthod cydymffurfio ag amod trwyddedig sef cludo neu ganiatáu i unigolyn arall gael eu cludo yn y cerbyd heb ganiatâd y llogwr	3 phwynt
2	Peidio â rhoi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig am Gosb Benodedig am oryrru o fewn saith diwrnod gwaith.	6 phwynt
1	Cyflwyno cerbyd trwyddedig i'w brofi mewn cyflwr anniogel neu beryglus	20 pwynt

**2018**

<b>Nifer y digwyddiadau</b>	<b>Mater</b>	<b>Nifer y pwyntiau fesul mater</b>
1	Peidio â hysbysu am wrthdrawiad traffig ffyrdd o fewn 72 awr	6 phwynt
2	Peidio â datgelu dwy euogfarn am oryrru i'r Cyngor, yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod gwaith.	6 phwynt
1	Peidio â rhoi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig am euogfarn am oryrru o fewn saith diwrnod gwaith.	6 phwynt

#### 4. ARGYMHELLION

- 4.1 Bod Aelodau'n cydnabod y wybodaeth a ddarperir ar y dadansoddiad o'r pwyntiau a ddyfarnwyd.